



Gwasanaeth Democraidd
Democratic Service
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

PWYLLGOR IAITH
LANGUAGE COMMITTEE

10.30AM, DYDD MAWRTH, 16 EBRILL, 2013

10.30AM, TUESDAY, 16 APRIL, 2013

Lleoliad / Location

YSTAFELL GLYDER FAWR, SWYDDFA ARFON,
PENRALLT, CAERNARFON,

Pwynt Cyswllt / Contact Point

EIRIAN ROBERTS

(01286) 679018

maireirianroberts@gwynedd.gov.uk

(DOSBARTHWYD / DISTRIBUTED 8/04/13)

PWYLLGOR IAITH LANGUAGE COMMITTEE

AELODAETH/MEMBERSHIP (15)

Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr/Councillors

Craig ab Iago

Elwyn Edwards

Alan Jones Evans

Dyfrig Jones

Liz Saville Roberts

Mair Rowlands

Gareth Thomas

Mandy Williams-Davies

Annibynnol/Independent (4)

Y Cynghorwyr/Councillors

Tom Ellis

Eric M.Jones

Eirwyn Williams

Elfed Williams

Llais Gwynedd (3)

Y Cynghorwyr/Councillors

Gweno Glyn

Alwyn Gruffydd

Gruffydd Williams

Aelodau Ex-officio/Ex-officio Members

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor / Council Chairman and Vice-chairman

RHAGLEN

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryd ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 17 Ionawr, 2013 fel rhai cywir (copi yma – papur eog).

5. CYLCH GORCHWYL Y PWYLLGOR

Ystyried adroddiad y Swyddog Monitro (copi yma – papur glas).

6. ADRODDIAD LLWYDDIANT PROSIECT PENCAMPWYR IAITH CANOLFANNAU HAMDDEN GWYNEDD

Ystyried adroddiad yr Uwch Reolwr Gweithredol (copi yma – papur gwyrdd).

7. CYFRIFIAD 2011: SEMINAR SEFYLLFA'R GYMRAEG YNG NGWYNEDD

Ystyried adroddiad y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith (copi yma – papur melyn).

8. CWYNIION IAITH

Ystyried adroddiad y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith (copi yma – papur lelog).

9. ADRODDIAD AR GYNNYDD DISGYBLION Y CANOLFANNAU IAITH

Ystyried adroddiad y Pennaeth Addysg (copi yma – papur hufen).

AGENDA

1. APOLOGIES

To receive apologies for absence.

2. DECLARATION OF PERSONAL INTEREST

To receive any declaration of personal interest.

3. URGENT BUSINESS

To note any items that are a matter of urgency in the view of the Chairman for consideration.

4. MINUTES

The Chairman shall propose that the minutes of the last meeting of this committee held on 17 January, 2013, be signed as a true record (copy herewith - salmon paper).

5. TERMS OF REFERENCE OF THE COMMITTEE

To consider the report of the Monitoring Officer (copy herewith – blue paper).

6. REPORT ON THE SUCCESS OF THE GWYNEDD COUNCIL LEISURE CENTRES LANGUAGE CHAMPIONS PROJECT

To consider the report of the Senior Operations Manager (copy herewith – green paper)

7. 2011 CENSUS: SEMINAR ON THE SITUATION OF THE WELSH LANGUAGE IN GWYNEDD

To consider the report of the Equality and Language Officer (copy herewith – yellow paper)

8. LANGUAGE COMPLAINTS

To consider the report of the Equality and Language Officer (copy herewith – lilac paper)

9. REPORT ON PUPILS' PROGRESS AT THE LANGUAGE CENTRES

To consider the report of the Head of Education (copy herewith – cream paper)

PWYLLGOR IAITH, 17.01.13

Yn bresennol: Y Cynghorydd Liz Saville Roberts (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Gweno Glyn (Is-gadeirydd).

Y Cynghorwyr: Craig ab Iago, Elwyn Edwards, Tom Ellis, Alwyn Gruffydd, Eric M.Jones, Mair Rowlands, Gareth Thomas, Eirwyn Williams, Elfed Williams a Mandy Williams-Davies.

Swyddogion: Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dewi R.Jones (Pennaeth Addysg), Sion Huws (Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith), Ruth Richards (Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

Hefyd yn bresennol: Meri Huws (Comisiynydd y Gymraeg) ynghyd â Dyfan Sion (Uwch Swyddog Polisi a Chydymffurfiaeth) a Hunydd Andrews (Swyddog Polisi a Chydymffurfiaeth).

Sylwedydd: Y Cynghorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet – Gofal Cwsmer).

Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr Alan Jones Evans, Selwyn Griffiths, Dyfrig Jones a Gruffydd Williams.

1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 11 Hydref, 2012 fel rhai cywir.

3. CYFLWYNIAD I WAITH COMISIYNYDD Y GYMRAEG

Croesawyd Meri Huws, Comisiynydd y Gymraeg, i'r cyfarfod i roi cyflwyniad i'r aelodau ar waith y Comisiynydd.

Yn ystod ei chyflwyniad, nododd y Comisiynydd:-

- y crewyd swydd Comisiynydd y Gymraeg gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
- Bod y mesur hwn yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, a hynny am y tro cyntaf erioed, ond nad oedd yn effeithio ar statws y Saesneg yng Nghymru.
- Y daeth pwerau statudol y Comisiynydd i rym ar 1 Ebrill, 2012.
- Bod y Comisiynydd yn annibynnol.
- Y caiff y Comisiynydd wneud unrhyw beth y mae'n ei ystyried yn briodol er mwyn hybu defnyddio'r Gymraeg, hwyluso defnyddio'r Gymraeg a gweithio tuag at sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Yna manylodd ymhellach ar swyddogaethau a phwerau'r Comisiynydd, gan gynnwys y pŵer i gynnal ymholiadau ac i ymchwilio i gwynion. Ymhelaethodd ar y safonau y bydd disgwyl i'r 105 o sefydliadau neu gwmnïau sy'n dod o dan y Mesur Iaith eu cyrraedd ynghyd â'r bwriad i sefydlu Tribiwnlys y Gymraeg ar gyfer derbyn apeladau gan sefydliadau.

Nododd ymhellach fod y Comisiynydd yn derbyn tua 50-100 o gwynion bob mis, yn deillio o ofal iechyd a chyrrff y Goron yn bennaf, a'i bod eisoes wedi sefydlu ymholiad i ofal iechyd sylfaenol.

Yna rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Hoeliwyd sylw'n benodol ar y materion a ganlyn:-

- Yr angen i ddwyn pwysau ar y Llywodraeth o bob cyfeiriad i adolygu TAN 20 cyn gynted â phosib' gan nad oedd modd rhoi ystyriaeth briodol i'r Gymraeg o fewn y broses gynllunio ar hyn o bryd.
- Yr angen i ledaenu twf, yn hytrach na chanoli twf, er mwyn cefnogi cymunedau mewn ardaloedd megis Gwynedd.
- Pryder bod grymoedd y Comisiynydd wedi'u cyfyngu i faterion sydd wedi'u datganoli. Mewn ymateb, nododd y Comisiynydd fod Deddf Iaith 1993 yn parhau mewn grym a bod Mesur y Gymraeg yn datgan bod modd gosod safonau ar yr holl gyrrff sy'n weithredol yng Nghymru gyda chydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol.
- Pwysigrwydd dylanwadu ar y 3ydd Sector.
- Y pwyslais a roddir ar urddas mewn gofal a'r ffaith mai mater o urddas yw bod pobl yn derbyn gofal trwy gyfrwng eu dewis iaith.
- Pwysigrwydd cefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg a bod camau gweithredol yn digwydd o fewn y Llywodraeth i yrru hyn ymlaen.
- Yr angen am ddatrysiad ieithyddol o'r tueddiadau i ranbartholi.
- Dymuniad i weld asesiad ieithyddol yn rhan o unrhyw newid yn y gwasanaeth gofal.

PENDERFYNWYD dwyn pwysau ar y Llywodraeth o bob cyfeiriad i adolygu TAN 20 cyn gynted â phosib', drwy osod y mater ar raglen y Pwyllgor Cynllunio a gofyn am gefnogaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a holl gynghorau cymuned y sir i hyn.

Diolchwyd i'r Comisiynydd am ei chyflwyniad manwl a diddorol.

Yna cyhoeddodd y Cadeirydd y cynhelid Cynhadledd Hunaniaith ar Ddyfodol Cymunedau Gymraeg yn Galeri, Caernarfon ar 22 Mawrth.

4. CYFRIFIAD 2011: CANLYNIADAU CYNTAF AR YR IAITH GYMRAEG

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith yn nodi y cyhoeddwyd y canlyniadau cyntaf o Gyfrifiad 2011 ar yr iaith Gymraeg ar 11 Rhagfyr, 2012, ac yn manylu ar rai o'r canlyniadau allweddol i Gymru ac i Wunedd. Disgwylid cyhoeddi'r data ieithyddol ar lefel ward ar 30 Ionawr.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y prif sylwadau a ganlyn:-

- Nad oedd y ffigurau'n syndod o gwbl gan fod y duedd yn gwbl amlwg. Os na lwyddir i fynd i'r afael â hyn rŵan, 'rydym yn sôn am ddifodiant yr iaith. Mae angen chwyldro meddylol a diwylliant gwahanol, ond ofnir nad yw'r awydd na'r ewyllys ynom i wneud hynny.
- Bod angen dwyn perswâd ar weddill y cynghorwyr, e.e. yn eu rôl fel llywodraethwyr ysgolion wrth wneud penodiadau.
- Bod angen cyflwyno'r Gymraeg i bobl ifanc fel norm a gwneud yr iaith yn atyniadol iddynt a bod perygl eu troi i ffwrdd wrth ddarogan gwaed.

- Bod yr iaith yn colli tir ers 100 – 150 o flynyddoedd ac oni fydd yna newid yng Nghaerdydd, mae'r difodiant ar y gorwel.
- Bod mewnfudo yn lladd y Gymraeg.
- Ei bod yn bwysig codi hyder y bobl ifanc hynny sy'n teimlo nad yw eu Cymraeg yn ddigon da.
- Yn sgil cyhoeddi'r data ieithyddol ar lefel ward ar 30 Ionawr, y dylid trefnu seminar ar gyfer yr holl gynghorwyr tua diwedd Chwefror i drafod canlyniadau'r Cyfrifiad fesul ward, i gyflwyno gwybodaeth am bolisiau sy'n effeithio ar yr iaith, i drafod rôl cynghorwyr fel arweinwyr iaith yn eu cymunedau ac i ystyried sut orau i ddylanwadu ar bolisiau'r dyfodol.
- Y dylid amseru'r seminar i fwydo i mewn i Gynllun Strategol newydd y Cyngor fel bod y cynigion yn cael eu gweithredu drwy'r Cynllun Strategol.
- Nad oedd dylanwad y Brifysgol ar y ffigurau hyn yn glir ar hyn o bryd, ond unwaith y ceid y canlyniadau'n llawn, byddai sefyllfa'r Gymraeg yng Ngwynedd, gyda, a heb, y myfyrwyr yn gliriach.
- Bod rôl y Comisiynydd fel eiriolwr yn allweddol hefyd o safbwynt atal y dirywiad yn y defnydd bob dydd o'r iaith a phwysleisiwyd pwysigrwydd marchnata'r iaith yn bositif.
- Bod angen addysgu pobl ifanc ynglŷn â hanes yr iaith Gymraeg.

PENDERFYNWYD

(a) Nodi cynnwys yr adroddiad.

(b) Yn sgil cyhoeddi'r data ieithyddol ar lefel ward ar 30 Ionawr, y dylid trefnu seminar ar gyfer yr holl gynghorwyr tua diwedd Chwefror i drafod canlyniadau'r Cyfrifiad fesul ward, i gyflwyno gwybodaeth am bolisiau sy'n effeithio ar yr iaith, i drafod rôl cynghorwyr fel arweinwyr iaith yn eu cymunedau ac i ystyried sut orau i ddylanwadu ar bolisiau'r dyfodol, gan fwydo'r cynigion i mewn i Gynllun Strategol y Cyngor.

5. CYNLLUN STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG

Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Addysg yn gofyn i'r aelodau ystyried a derbyn cynnwys y drafft terfynol o'r cynllun.

Dosbarthwyd fersiwn ddiwygiedig o dudalen 10 o'r cynllun gan fod yna rai camgymeriadau yn y fersiwn a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen. Dosbarthwyd copiâu hefyd o Siarter Iaith Ysgolion Cynradd Gwynedd.

Nododd y Pennaeth Addysg ei fwriad i gyflwyno'r fersiwn derfynol o'r Cynllun Strategol a'r Siarter Iaith i gyfarfod llawn o'r Cyngor er mwyn tynnu'r holl gynghorwyr i mewn i'r drafodaeth.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y prif sylwadau a ganlyn:-

- Bod gan gynghorwyr a llywodraethwyr ysgolion rôl bwysig o ran hyrwyddo'r cynllun.
- Y byddai'n ddymunol petai gan gyrff llywodraethol pob ysgol bencampwr y Gymraeg.
- Bod gan benaethiaid ysgolion rôl bwysig o safbwynt amlygu a gwerthu'r cynlluniau trochi a'r canolfannau i hwyrddyfodiaid i rieni di-gymraeg. Hefyd, mae llwyddiant y plant gyda'r Gymraeg yn ddull o werthu'r canolfannau hyn.
- Y dylid ymfalchïo yn narpariaeth y canolfannau iaith a gallai'r pwyllgor hwn dderbyn adroddiad ar gynnydd y plant sydd wedi bod drwy'r system yma.

- Y gallai fod yn anodd denu Cymry Cymraeg i helpu mewn cylchoedd meithrin, grwpiau Ti a Fi, grwpiau darllen mewn ysgolion cynradd, ayb, a bod rôl yma i gynghorwyr fel arweinyddion o fewn y gymuned o safbwynt sbarduno pobl i'r cyfeiriad cywir.
- Mynegwyd dymuniad i weld penodiad yn cael ei wneud i'r swydd Cydlynnydd Siarter Iaith Gymraeg yr ysgolion cynradd.

PENDERFYNWYD

- (a) Derbyn cynnwys y drafft terfynol o Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.**
- (b) Cyflwyno adroddiad cynnydd i'r pwyllgor hwn ar gynnydd y plant hynny sydd wedi bod drwy'r canolfannau iaith.**

6. CWYNION IAITH

Gan fod yr amser wedi prysuro yn ei flaen, ni chafwyd cyfle i drafod yr eitem hon a gofynnwyd i'r aelodau anfon unrhyw sylwadau ar yr adroddiad i sylw'r Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 1.10pm.

CYFARFOD	PWYLLGOR IAITH
DYDDIAD	16 EBRILL 2013
PWNC	CYLCH GORCHWYL Y PWYLLGOR
AWDUR	DILYS PHILLIPS, SWYDDOG MONITRO

1. Pan sefydlwyd y Pwyllgor iaith flwyddyn yn ôl mabwysiadodd y Cyngor yr hyn sydd yn yr Atodiad fel cylch gorchwyl iddo. Ers hynny mae profiad wedi dangos fod lle i adolygu a chryfhau'r cylch gorchwyl. Bydd cyfle i'w ddiwygio yn y Cyngor Blynyddol.
2. Dan y drefn Gabinet mae'r cyfrifoldeb am faterion iaith, heblaw Cynllun iaith Gymraeg y Cyngor, yn perthyn i'r Aelod Cabinet Gofal Cwsmer. Mae mabwysiadu'r cynllun iaith yn fater i'r Cyngor llawn, sydd wedi dirprwyo'r gwaith o'i lunio a'i fonitro i'r Pwyllgor.
3. Daw'r cynllun iaith presennol i ben eleni a bydd angen ystyried creu cynllun newydd i bontio'r cyfnod hyd y daw'r safonau iaith newydd i rym. Bydd hyn yn fater i'r Pwyllgor i wneud argymhelliad arno i'r Cyngor llawn.
4. Yn sgil canlyniadau'r cyfrifiad diau y bydd angen hefyd edrych ar gyfeiriad strategol ar gyfer yr iaith Gymraeg o fewn y sir. Mae'r gwaith o greu strategaeth a hyrwyddo'r iaith yn perthyn i'r Aelod Cabinet. Mae yma gyfle i ddefnyddio'r pwyllgor fel corff ymgynghorol ar gyfer y gwaith strategol hwn. Os felly, bydd angen ychwanegu hwn at y cylch gorchwyl.
5. Mae monitro'r cynllun iaith yn barod o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor ond efallai fod angen eglurder ar pa gwynion sydd oddi fewn i'r cynllun ac felly yn gallu cael eu trin gan y pwyllgor a pha rai sydd oddi allan i'w bwerau i ymdrin â hwy.
6. Bwriad y cynllun iaith ydi sicrhau bod gwasanaethau'r Cyngor i'r cyhoedd yn cael eu darparu gyda'r Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Golyga hyn fod cwynion yn ymwneud â darpariaeth gan y Cyngor ei hun neu am wasanaeth a ddarperir ar ran y Cyngor gan drydydd parti yn dod o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor. Yn ogystal mae cwynion am ddarpariaeth gan bartneriaeth y mae'r Cyngor yn rhan ohoni neu am gyrff sydd wedi torri amod iaith ynghlwm mewn grant neu nawdd, o fewn cylch gorchwyl y pwyllgor.

7. Mae cwynion eraill, am gyrff lle nad oes perthynas ddarparu gwasanaeth gyda'r Cyngor, oddi allan i bwerau'r pwyllgor i wneud unrhyw beth yn eu cylch.
8. Fel rhan o'i waith monitro efallai yr hoffai'r Pwyllgor gymryd rôl rhagweithiol i edrych ar rai o brif bolisiâu a gweithdrefnau'r Cyngor trwy gyflwyno asesiad ardrawiad iaith. Byddai modd i'r asesiad gael ei ddefnyddio i wirio unrhyw benderfyniadau a wneir gan y Cabinet gan adrodd yn ôl i'r pwyllgor yn achlysurol ar y darganfyddiadau.

ARGYMHELLIAD

9. Argymhellir bod y Pwyllgor yn:
 - 9.1 Ystyried ei raglen waith am y flwyddyn i ddod yng ngoleuni ei bwerau a'i gylch gorchwyl
 - 9.2 Argymell i'r Cyngor Llawn ar 2 Mai ychwanegu'r cymal canlynol at gylch gorchwyl y Pwyllgor

“Gweithredu fel corff ymgynghorol ar strategaethau hyrwyddo'r iaith Gymraeg o fewn y sir gan wneud argymhellion i'r Cabinet yn ôl yr angen”

CYFARFOD	Is-Bwyllgor Iaith
DYDDIAD	
TEITL	Adroddiad Llwyddiant Prosiect Pencampwyr Iaith Canolfannau Hamdden Gwynedd
PWRPAS YR ADRODDIAD	Cyflwyno diweddariad ac adroddiad terfynol ar y cynllun Pencampwyr Iaith Canolfannau Hamdden Gwynedd
AWDUR	Gwenno Williams Uwch Reolwr Gweithredol
ARGYMHELLIAD	

Cefndir

Yn 2011, derbyniwyd cyllideb gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, fel rhan o'r cynllun Gweithleoedd Dwyieithog i hyfforddi a datblygu Pencampwyr Iaith yng Nghanolffannau Hamdden y Fro Gymraeg. Fel rhan o'r cynllun darparwyd hyfforddiant i 13 o Bencampwyr Iaith Canolfannau Hamdden Gwynedd, golygai hyn bod ganddom Pencampwyr Iaith yn ein Canolfannau i gyd yng Ngwynedd.

Swyddogaeth Graidd Y Pencampwyr Iaith

Mae llawer o swyddogaethau craidd i Bencampwr Iaith, a dyma rhai ohonynt.

- Cyfleu gwybodaeth i staff am ofynion iaith, a materion yn ymwneud a'r Gymraeg
Arwain trwy esiampl;
- Cefnogi dysgwyr a siaradwyr Cymraeg dihyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Manteision Swyddogaeth Pencampwr Iaith I'r Gweithlu

- Cynyddu ymwybyddiaeth iaith ymysg staff
- Meithrin arferion ieithyddol da yn y gweithle
- Cynyddu hyder staff i ddefnyddio'r Gymraeg
- Hybu datblygiad proffesiynol y staff a chynhorthwy'r sefydliad, drwy sicrhau cwrteisi ieithyddol a gofal cwsmer.

Manteision Swyddogaeth Pencampwyr Iaith I'r Cyngor

- Gwella'r gwasanaeth i'r cwsmer
- Cryfhau'r gwasanaeth i gwrdd â dyheadau'r cwsmer
- Cefnogi'r Cynllun Addysg Gymraeg

Camau Mae'r Uned Weithredol Wedi ei Gymryd

Mae'r Cynllun Iaith yn berthnasol i bawb, ac mae ei weithredu'n effeithiol yn gyfrifoldeb i bob aelod o staff ein Canolfannau Hamdden. Yn sgil hyn mae disgwyl i bob Pencampwr Iaith arwain ei dim drwy esiampl, cefnogi a mentora'r dysgwyr a siaradwyr Cymraeg. Mae hyn yn digwydd yn ddyddiol yn ein Canolfannau Hamdden drwy ateb y ffôn, dechrau pob sgwrs, siarad ymysg staff, ysgrifennu negeseuon ac e-byst yn y Gymraeg. Yn ogystal mae pob cyfarfod staff bellach gydag agenda a chofnodion Cymraeg. Rôl y Pencampwyr Iaith yw sgwrsio, helpu, bod yn gyfaill a mentor i annog y dysgwyr/siaradwyr dihyder i siarad Cymraeg.

Wrth ddarparu gwersi nofio, gymnasteg, tennis a.y.b. a gwersi ar gyfer ein hysgolion yn y Gymraeg rydym yn atgyfnerthu'r Cynllun Addysg Gymraeg ac yn sicrhau cyfleoedd i blant a phobl ifanc cael dysgu'r gwersi trwy iaith ein hysgolion.

Fel rhan o Gynllun Busnes a gwaith Tîm Technegol yr Uned, mae trefniant mewn lle i gynnal arolwg/awdit o sgiliau iaith staff a defnydd o'r iaith Gymraeg yn y Canolfannau. Bydd hyn yn digwydd o leiaf dwywaith y flwyddyn gan ein Tîm o archwilwyr technegol yr Uned.

Rydym fel Gwasanaeth yn ymfalchïo fod y cynllun yma wedi gwella darpariaeth, ac mi fydd gwelliant parhaus, defnydd o'r iaith Gymraeg trwy ein Canolfannau Hamdden er budd ein holl gwsmeriaid sydd yn derbyn gwasanaeth a gweithgareddau yw hybu i "Fyw'n Iach."

CYFARFOD:	PWYLLGOR IAITH
DYDDIAD:	EBRILL 16 2013
TEITL:	CYFRIFIAD 2011: SEMINAR SEFYLLFA'R GYMRAEG YNG NGWYNEDD
AWDUR:	SWYDDOG CYDRADDOLDEB AC IAITH
PWRPAS YR ADRODDIAD:	ER GWYBODAETH

1. CEFNDIR

- 1.1. Yng nghyfarfod y Pwyllgor Iaith ar Ionawr 17 2013, cafwyd adroddiad ar ganlyniadau cychwynnol Cyfrifiad 2011. Erbyn hyn, cyhoeddwyd data ar yr iaith Gymraeg i lefel ward, ac i godi ymwybyddiaeth o hyn ymysg Aelodau etholedig ac i hyrwyddo trafodaeth o'r goblygiadau, trefnwyd seminar ar eu cyfer er mwyn cyflwyno'r dystiolaeth a rhoi cyfle i drafod y sefyllfa a'r ymateb ar lefel lleol.
- 1.2. Cynhaliwyd y Seminar yn y Ganolfan ym Mhorthmadog ar Fawrth 20 2013.

2. Y SEMINAR

- 2.1. Cafwyd cyflwyniadau gan Arweinydd y Cyngor a gan Rheolwr Gwybodaeth ac Ymchwil y Cyngor. Ar ôl cyflwyniad i ddata'r Cyfrifiad ar lefel cenedlaethol, sirol a dosbarth, cafwyd trafodaethau ar gyfer Arfon, Dwyfor a Meirionnydd wedi'u hwyluso gan Swyddogion a chydag aelod o'r Uned Ymchwil Corfforaethol yn cynorthwyo gyda dadansoddiad o'r ffigyrau.
- 2.2. Roedd y trafodaethau'n seiliedig ar ddau gwestiwn: "Beth sydd wedi newid neu beidio ers 2001?" a "Beth sydd i gyfrif am hyn?" Bu hyn yn gyfle i'r Aelodau drafod y sefyllfa yn eu wardiau ac i gynnig dadansoddiad o'r newidiadau ynghyd ag adnabod blaenoriaethau at y dyfodol.
- 2.3. Yn dilyn o gyflwyniad y Rheolwr Gwybodaeth ac Ymchwil, ymddengys mai'r prif ffactorau tu ôl i'r newid yw:
 - Mudo
 - Yr Economi
 - Polisi Addysg
 - Polisi Cynllunio
 - Defnydd o'r iaith

Gwelwn o'r trafodaethau, fod yr un themâu'n codi ar draws y 3 grŵp:

- Defnydd o'r iaith a'r hyder i'w defnyddio
- Patrymau mudo ac allfudo
- Rôl ysgolion ac addysg i hyrwyddo'r iaith
- Materion tai a chynllunio
- Codi ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg
- Dylanwadu ar gyrff eraill.

2.4. Ceir crynodeb o'r trafodaethau yn Atodiad 1

3. CAMAU NESAF

3.1. Wrth i fwy a mwy o wybodaeth o'r Cyfrifiad gael ei gyhoeddi, mae'n hanfodol bwysig ein bod yn parhau i ddadansoddi a sicrhau fod yr Aelodau'n rhan greiddiol o'r broses yma. Derbynnir yn ogystal fod gan yr Aelodau rôl allweddol bwysig i'w chwarae o fewn eu wardiau fel hyrwyddwyr a phencampwyr yr iaith Gymraeg.

3.2. Bwriedir datblygu ac ehangu'r gwaith yma drwy'r cyrff sy'n dilyn y Pwyllgorau Ardal, lle ceir rhagor o gyfle i'r Aelodau drafod ac adnabod y blaenoriaethau a'r ymatebion ar lefel lleol.

**SEMINAR IAITH: CANLYNIADAU'R CYFRIFIAD
Y Ganolfan Porthmadog 20/03/13**

Sylwadau Grŵp Trafod Dwyfor

Beth sydd wedi newid neu beidio?

Beth sydd i gyfrif am hyn?

- Angen ystyried newidiadau ar lefel is na ward: gwahaniaethau'n gallu bodoli mewn pocedi bach.
- Angen cadw golwg ar bryd a sut mae pobl ifanc yn defnyddio'r Gymraeg; nid yn unig colli cyswllt a'r iaith wrth symud i ffwrdd ond pryd a sut maent yn ei defnyddio yn eu cymunedau.
- Twristiaeth yn denu mewnfudo- y tueddiad yma'n ymledu tu hwnt i'r ardaloedd twristiaid ac i ardaloedd mwy gwledig.
- Rhai rhieni'n anfon eu plant i ysgolion sy'n cael eu gweld fel rhai mwy "Saesnig"- angen cysondeb mewn polisi addysg a Llywodraethwyr sy'n gefnogol i'r Gymraeg.
- Dylanwad capeli'n gostwng- Ysgolion bellach yn cael eu gweld fel y prif sefydliadau lleol i hyrwyddo'r iaith.
- Tai fforddiadwy a pholisïau gosod tai yn allweddol bwysig mewn ardaloedd gwledig.
- Gostyngiad yn nifer y siaradwyr hyn Cymraeg yn gallu newid deinamig cymdeithas. Pobl wedi ymddeol yn mewnfudo a gydag amser i gyfrannu'n gymdeithasol- hyn yn gallu newid iaith gweithgareddau.
- Teuluoedd yn bwysig- pa iaith a ddefnyddir ar yr aelwyd? Angen mwy o weithgareddau Cymraeg a chymorth ieithyddol i rieni.
- Mewnfudo'n gallu herio sefydliadau a threfniadau- e.e. iaith Cynghorau Cymuned.
- Angen i Gymry fod yn fwy cynhwysol a hefyd yn fwy hyderus o'n iaith a'n hawl i'w defnyddio.
- Angen cyfleoedd economaidd- yn enwedig yn y sector breifat.
- Angen codi ymwybyddiaeth o iaith a diwylliant a gwneud hyn mewn ffordd bositif: Cynghorwyr gyda rôl i'w chwarae yn hyn.

- Iechyd: Neges “Mwy na Geiriau” yn allweddol bwysig.
 - Angen codi hyder pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn gyhoeddus.
 - Tai ar y farchnad agored yn cael caniatâd cynllunio yn aml iawn yn troi'n ail gartrefi.
 - Saesneg yn arfer cael ei gweld yn iaith “Swyddogol”- cysgod o hyn yn dal i fodoli.
-

Sylwadau Grŵp Trafod Meirionnydd

Beth sydd wedi newid neu beidio?

Beth sydd i gyfrif am hyn?

- Mewnfudo. Symudoledd poblogaeth yn rhywbeth na ellir ei rwystro, ond mae hi'n anodd iawn ymateb iddo pan mae'r patrwm o fewnfudo wedi bodoli mewn ardal ers blynnyddoedd.
- Allfudo. Mae'r economi yn wan yng nghefn gwlad - patrwm byd-eang - sydd wrth gwrs yn arwain at allfudo. Ym Meirionnydd, oherwydd diffyg gwaith, mae 'hufen' y bobl ifanc yn allfudo i drefi a dinasoedd er mwyn manteisio ar gyfleoedd economaidd a swyddi, gan arwain at ddiffyg arweinwyr ifanc yn ein cymunedau, pobl ifanc a theuluoedd bregus a'r di-waith.
- Diffyg hyder. Siaradwyr Cymraeg cynhenid, yn arbennig mewn ardaloedd difreintiedig gan eu bod yn pryderu nad yw eu Cymraeg 'yn ddigon da'. Angen codi hyder y siaradwyr Cymraeg sydd yn byw yng Ngwynedd (y rhai sydd ar ôl).
- Polisi addysg Gwynedd yn dangos llwyddiant i ddatblygu sgiliau plant a phobl ifanc yn y Gymraeg. Fodd bynnag, nodwyd pryder ynglŷn â'r amrywiaeth yng ngweithrediad y polisi mewn rhai ysgolion. Lleisiwyd pryder hefyd am iaith gymdeithasol y plant ar y buarth.
- Petai poblogaeth Gwynedd wedi aros yr un fath, byddai gan y sir ganran uwch o siaradwyr Cymraeg, felly twf cyffredinol yn y boblogaeth sydd wedi arwain at y gostyngiad.
- Maes cynllunio a thai yn allweddol.

- Nodwyd fod swyddi ar gael o fewn tirwedd hynod Eryri, ond nad yw trigolion lleol yn adnabod nac yn manteisio ar y cyfleoedd y mae'r dirwedd yn ei gynnig.
 - Nodwyd ei bod yn her dod â'r Gymraeg a'r defnydd ohoni i mewn i fyd busnes.
 - Angen codi ymwybyddiaeth o argyfwng yr iaith er mwyn annog gweithredu.
 - Y Gymraeg angen bod yn rhan o agenda cyfarfodydd yn barhaol.
 - Gellir cynllunio dyfodol y Gymraeg ar y cyd efo Parc Cenedlaethol Eryri.
-

Sylwadau Grŵp Trafod Arfon

Beth sydd wedi newid neu beidio?

Beth sydd i gyfrif am hyn?

- Y Felinheli – Dirywiad o dan y '70%'
 - Myfyrwyr ayb = dim ond hanner y darlun yw hyn
 - Cynllunio / tai
 - Marina (poblogaeth symudol, o Fangor)
 - Tai preswyl
 - Tai moethus = mewnfudwyr – rhy ddrud i bobl leol
 - Angen ystyried hyn yn y dyfodol
- Twf ym Motwnnog a Chlynnog
 - A yw hyn yn ganlyniad uniongyrchol i'r gweithgaredd adeiladu tai?
 - A oes angen trin y rhain yn wahanol? (e.e. y wardiau sydd ychydig o dan y 70%)
- Llanrug – cynnydd
 - Tai wedi eu hadeiladu = effaith wahanol
 - Teuluoedd proffesiynol Cymraeg – pam fod hyn yn wahanol i gyffiniau Bangor a'r Felinheli?
- Angen gwaith ar fudo – beth yw'r rhesymau dros hyn?

- Pentir - syndod nad yw'n waeth, ond mae pobl ifanc yn symud yno, a'u plant yn dysgu Cymraeg. Ond, efallai bod rhieni yn nodi bod eu plant yn deall Cymraeg, a bod eu gwir allu ddim yn cael ei adlewyrchu'n deg.
- Angen edrych ar Fangor yn ei gyfanrwydd
 - Polisi addysg
 - Angen newid diwylliant o fewn rhai ysgolion
- Talybont a Llandygai - cael eu hystyried yn ysgolion di-Gymraeg, er eu bod o fewn Dyffryn Ogwen, sydd â rhannau Cymraeg iawn.
- Sicrhau tai i bobl leol yw'r flaenoriaeth
- Tai Bangor – Mae nifer ohonynt yn cael eu trosi i fod yn 'HMOs' (Houses of Multiple Occupancy). Mae teuluoedd yn symud allan o Fangor oherwydd diffyg tai addas.
- Mae diffyg hyder mewn Cymreictod ym Mangor
 - Mae angen gwneud gwaith marchnata'r iaith
 - Mae llawer yn deall yr iaith, ond ddim yn ei siarad ym Mangor
 - Nid yw'n cael ei weld fel rhywbeth sydd yn 'cŵl'
- Cyngor Gwynedd - mae hwn yn esiampl o fyw yn 'Gymreigaidd'
 - Ynys Môn ddim yr un peth – llawer o'r uwch swyddogion yn gallu siarad Cymraeg ond ddim yn ei ddefnyddio
 - Mae polisi iaith Cyngor Gwynedd yn helpu i gynnal y lefel
- Mae dylanwad Cyngor Gwynedd yn gryf ar ddalgylch Caernarfon
- Dylid targedu'r cyrff sydd wedi eu lleoli ym Mangor.
 - Mae ganddynt weithlu sefydlog, ond heb yr un ymrwymiad e.e. Cyngor Cefn Gwlad, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Prifysgol Bangor, ayb
- Mae angen gwahaniaethu rhwng y Myfyrwyr a gweddill y boblogaeth ym Mangor, gan eu bod yn 'sgiwio'r' darlun

- Mae angen creu Cymuned o ddiddordeb e.e. 'Balchder Bangor'
- Prifysgol Bangor – ochr weinyddol – 'does dim esgus iddynt beidio â chyflogi siaradwyr Cymraeg
- Betsi Cadwaladr – maent yn cau gwasanaethau
 - Maent yn dweud bod hyn oherwydd y risg o fethu cael pobl i weithio yno, ond nid ydyn nhw'n cyflogi'n lleol
 - Dydi iaith ddim yn cael ei ystyried yn y broses recriwtio, felly nid oes gan rywun lleol fantais dros rywun arall wrth geisio am swyddi
- Efallai bod segurdod yn un peth all fod wedi helpu i gynnal y sefyllfa yng Nghaernarfon ac yn Nyffryn Nantlle
- Un risg o wella lefel sgiliau pobl yn yr ardaloedd hyn fyddai iddynt symud oddi yno.
- Mae diffyg tai i ddringo'r ystôl mewn rhai llefydd fel Gerlan a Phenygroes
- Yr hyn sydd ei angen yw 'Cynllunio Cynaliadwy' – h.y. lle mae opsiynau tai digonol ar gyfer trigolion lleol
- Sgiliau
- Cymraeg clir – mae angen ei ddefnyddio
- Cyngor Gwynedd yn fodel da
- Ond, mae rhai achosion e.e. 'Trefniadaeth ysgolion' lle nad yw pobl yn gwybod beth mae'n ei feddwl
- Yng Nghaernarfon, mae'r ysgolion yn 'Cymraeg Cymraeg' = ac mae'r boblogaeth a'r sefyllfa yn eithaf static

- Mae angen sesiwn ymwybyddiaeth iaith
- Uwch swyddogion Môn – gweithredu trwy'r Saesneg (er eu bod yn gallu siarad Cymraeg)
- Mae angen mynnu siarad Cymraeg
- Ym Mhenygroes – y 'default' ydi'r Gymraeg
 - Mae hynny'n hybu'r defnydd ohoni
 - Mae plant sydd yn symud i mewn i'r pentref yn dysgu
 - Mae hyn yn werthfawr iawn ('methu rhoi pris arno')
 - Mae'n rhaid brwdfrydu
 - Mae'n rhaid hefyd defnyddio pob cyfle i ddefnyddio'r iaith
- Mae angen ystyried sut i dargedu'r Brifysgol
- Mae hefyd angen llongyfarch yr ysgolion Meithrin, gan eu bod yn gwneud cynnydd da wrth hybu'r iaith
- Rydym yn ceisio sefydlu Menter Iaith ym Mangor

CYFARFOD:	IS-BWYLLGOR IAITH
DYDDIAD:	EBRILL 16 2013
TEITL:	CWYNION IAITH
AWDUR:	SWYDDOG CYDRADDOLDEB AC IAITH
PWRPAS YR ADRODDIAD	CYFLWYNO CWYNION IAITH

1) CWYNION YN ERBYN Y CYNGOR

DYDDIAD	CWYN	YMATEB
Ionawr 2013	Cwyn gan aelod o'r cyhoedd ynglŷn â neges uniaith Saesneg ar beiriant ateb wedi galw rhif Amgueddfeydd ac Oriolau Gwynedd	Ymddiheuriad gan yr Uned. Mae'n ymddangos mai problemau technegol achosodd i'r peiriant golli'r neges ddwyieithog a throsglwyddo'r alwad i BT
Ionawr 2013	Ymholiad gan Aelod ynglŷn â busnesau gydag enwau ac arwyddion Saesneg yn derbyn nawdd grant gan y Cyngor	Wedi codi'r mater gyda'r Uned Gyfreithiol, ymddengys na allwn orfodi enwau brand Cymraeg ac ni allwn osod amodau ar elfennau nad ydym yn eu hariannu. Fodd bynnag, yn dilyn hyn, bydd yr Adran Economi a Chymuned yn manteisio ar y cyfle i edrych ar sut i wella eu hamodau ieithyddol
Ionawr 2013	Cwyn gan Aelod na roddwyd sylw priodol i ofynion ieithyddol wrth lunio tendr ar gyfer cynnal ymgynghoriad ar y Gwasanaeth Hamdden	Ymateb gan yr Aelod Cabinet perthnasol yn sicrhau pob cymorth cyfieithu (Cyfieithu ar y pryd a chyfieithu dogfennau) i'r cwmni sy'n ymgymryd â'r gwaith

DYDDIAD	CWYN	YMATEB
Chwefror 2013	Cwyn gan aelod o'r cyhoedd ynglŷn â gwallau iaith ar ffurflen Budd-dal/ Treth Cyngor i'r hunangyflogedig	Ymddengys yr anfonwyd ffurflen anghywir mewn camgymeriad. Ymddiheuro am hyn, ac anfon fersiwn gywir o'r ffurflen
Chwefror 2013	Cwyn gan Gyngor Cymuned Llanystumdwy ynglŷn â thestun drafft uniaith Saesneg ar gyfer byrddau dehongli treftadaeth a anfonwyd iddynt gan gwmni'n gweithio dan gontract i'r Cyngor	Yr Adran yn ymddiheuro, gan sicrhau'r Cyngor Cymuned y bydd unrhyw ddeunydd cyffelyb yn cael ei anfon yn ddwyieithog o hyn ymlaen
Chwefror 2013	Cwyn gan aelod o'r cyhoedd ynglŷn â derbynneb Saesneg am daliad ffi i'r Uned Gwarchod y Cyhoedd (er iddi ohebu drwy gyfrwng y Gymraeg)	Yr Uned yn ymddiheuro i'r unigolyn, gan sicrhau eu bod yn adolygu eu prosesau o safbwynt cydymffurfio a'r Cynllun Iaith
Mawrth 2013	Cwyn gan Aelod ynglŷn â chyflwyniad Saesneg ar Deithio Bywiog mewn cyfarfod Prosiect Bangor	Yr Adran yn ymateb drwy esbonio fod y swyddog arbenigol ar y pwnc yma'n dysgu Cymraeg a ddim eto'n gyfforddus i gyflwyno adroddiad technegol drwy gyfrwng yr iaith, yn enwedig gan mai ar fyr-rybudd bu raid cynhyrchu'r cyflwyniad. Gyda chaniatâd yr Adran, esboniodd hyn drwy gyfrwng y Gymraeg ar ddechrau'r cyflwyniad. Mae'r Adran yn ymddiheuro nad oedd y sleidiau'n ddwyieithog
Mawrth 2013	Cwyn gan Gyngor Tref Pwllheli ynglŷn â defnydd o'r fersiwn Cymraeg a Saesneg o "Stryd Penlan" ar arwydd gwyrriad	Atgoffa'r Uned berthnasol o benderfyniad y Pwyllgor Iaith i arddel enwau strydoedd Cymraeg (Hydref 2013)
Mawrth 2013	Cwyn ynglŷn â llythyr uniaith Saesneg yn rhybuddio preswlydd o wal beryglus	Y gwyn wedi'i chyfeirio at Ymgynghoriaeth; Disgwyl ymateb

DYDDIAD	CWYN	YMATEB
Mawrth 2013	Cwyn gan Aelod ynglŷn â thystysgrif Biwro Cofnod Troseddol (Llywodraethwyr Ysgolion) uniaith Saesneg	Codi'r mater gyda'r Gwasanaethau Cefnogol: Byddent yn edrych i mewn i'r mater, gan sefydlu rôl y Cyngor yn y mater

2) CWYNION YN ERBYN CYRFF ERAILL

DYDDIAD	CWYN	YMATEB
Ionawr 2013	Cwyn gan Aelod ynglŷn â darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn dosbarth mamolaeth	Cyfeirio'r gwyn at y Bwrdd Iechyd a Comisiynydd y Gymraeg
Chwefror 2013	Cwyn gan Aelod nad yw'r dogfennau Cynllunio TAN 5,8 ac 21 ar gael yn y Gymraeg	Cysylltu â Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg. Nid yw'r dogfennau dan sylw wedi derbyn blaenoriaeth cyfieithu dan system sgorio'r Llywodraeth. Gan fod hyn yn cyd-fynd a'u Cynllun Iaith, ni all y Comisiynydd orfodi ar hyn o bryd
Chwefror 2013	Cwyn gan y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau ynglŷn â dogfennau a chyflwyniadau uniaith Saesneg gan y Bwrdd Iechyd	Cyfeirio'r gwyn at y Bwrdd Iechyd yn y lle cyntaf; os na ddaw ymateb boddhaol, gall y Pwyllgor ystyried anfon y gwyn ymlaen at Gomisiynydd y Gymraeg

3) DIWEDDARIAD

Cwmni Padarn

Cafwyd cyfarfod rhwng Cyfarwyddwr y Cwmni a Chadeirydd y Pwyllgor Iaith a'r Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith. Cytunwyd y byddai'r cwmni'n ystyried newid yr arwyddion "Menai College", "Town Clock" a "Menai Bridge".

EITEM

CYFARFOD	PWYLLGOR IAITH Y CYNGOR
DYDDIAD	16 Ebrill 2013
TEITL	Adroddiad ar gynnydd disgyblion y Canolfannau Iaith
PWRPAS	Cyflwyno gwybodaeth
ARGYMHELLIAD	Derbyn yr adroddiad
AWDUR	Dewi R Jones, Pennaeth Addysg
AELOD CABINET	Cynghorydd Sian Gwenllian

CEFNDIR

Nôd y Canolfannau Iaith yw darparu cwrs dwys yn y Gymraeg i fewnfudwyr er mwyn eu galluogi i ymdoddi i'r gymdeithas ddwyieithog a chyfranogi'n llawn o brofiadau addysg ddwyieithog. Mae'r ddarpariaeth hon yn greiddiol i gynorthwyo ysgolion cynradd ac uwchradd i weithredu'r Polisi Iaith.

Mae cyswllt da yn bodoli rhwng yr ysgolion a'r canolfannau, a'u llwyddiant i'w weld yn amlwg pan ddychwela'r disgyblion i'w hysgolion a'u cymunedau gyda sylfaen gadarn yn y Gymraeg wedi tymor o ddysgu dwys, (hanner tymor yn Y Ganolfan Uwchradd).

Erbyn hyn mae pedair canolfan gynradd ac un ganolfan uwchradd, sy'n gwbl unigryw yng Nghymru. Lleolir y canolfannau cynradd yng Nghaernarfon, Dolgellau, Llangybi a Phenrhyndeudraeth, a'r ganolfan uwchradd ym Mhorthmadog.

Caiff y sefyllfa o ran nifer y disgyblion a'r ddarpariaeth ei monitro yn rheolaidd, gydag Ymgynghorydd y Gymraeg (Swyddog y Gymraeg mewn Addysg o Ebrill 2013) yn ymweld ac yn cynnal trafodaethau a chyfarfodydd ffurfiol rheolaidd.

Rhwng 2005 a Hydref 2012 mae cyfanswm o **1056** o ddisgyblion cynradd a **358** o ddisgyblion uwchradd wedi elwa o gael mynychu'r canolfannau iaith.

Er mwyn sicrhau dilyniant priodol yn yr ysgolion bydd athrawon y canolfannau yn cynnig ôl-ofal i bob disgybl wedi iddynt ddychwelyd i'w hysgolion, yn ogystal â rhoi arweiniad i athrawon ynglŷn â'r dilyniant priodol ar gyfer y disgyblion.

Yn ystod tymor yr Hydref 2009, datblygwyd ymhellach y strategaeth ôl-ofal oedd yn bodoli yn y Canolfannau Cynradd, a chyflwynwyd hwn i benaethiaid yr ysgolion cynradd ac mae bellach ar waith ers tymor y Gwanwyn 2010.

Penodwyd ail athrawes (swydd barhaol) i'r Ganolfan Iaith Uwchradd ym Medi 2012 gan ddatblygu ymhellach weithrediad y rhaglenni ôl-ofal i'r disgyblion gan gynnig arweiniad i'r ysgolion uwchradd yn ôl yr angen. Mae'r elfen hon yn greiddiol i lwyddiant y gwaith.

CANOLFANNAU IAITH CYNRADD

Nodir isod wybodaeth ynglŷn â chanran y disgyblion sy'n dilyn y Gymraeg fel iaith 1af ar ôl iddynt drosglwyddo i'r uwchradd (2010 - 2012), sydd yn galonogol iawn.

Canolfan Iaith Cefn Coch

Blwyddyn	Cyfanswm	Iaith 1af	Ail iaith	Canran yn dilyn iaith 1af
'12	24	22	2	91%
'11	25	25	0	100%
'10	26	19	7	73%

Canolfan Iaith Llangybi

Blwyddyn	Cyfanswm	Iaith 1af	Ail iaith	Canran yn dilyn iaith 1af
'12	13	12	1	92%
'11	8	8	0	100%
'10	19	18	1	94%

Canolfan Iaith Dolgellau

Blwyddyn	Cyfanswm	Iaith 1af	Ail iaith	Canran yn dilyn iaith 1af
'12	5	4	1	80%
'11	2	1	1	50%
'10	9	4	5	44%

Canolfan Iaith Maesincla

(Heb gynnwys data Ysgol Friars, sef y plant nad ydynt yn mynd i Ysgol Friars)

Blwyddyn	Cyfanswm	Iaith 1af	Ail iaith	Canran yn dilyn iaith 1af
'12	4	4	0	100%
'11	6	6	0	100%
'10	6	6	0	100%

Canolfan Iaith Maesincla

(Yn cynnwys data Ysgol Friars, sef y plant sydd yn mynd i Ysgol Friars)

Blwyddyn	Cyfanswm	Iaith 1af	Ail iaith	Canran yn dilyn iaith 1af
'12	13	6	7	46%
'11	18	6	12	33%
'10	30	6	24	20%

CANOLFAN IAITH UWCHRADD

Nodir isod wybodaeth ynglyn â chanlyniadau cyn ddisgyblion y Ganolfan Iaith Uwchradd sydd wedi sefyll arholiadau (cronfa ddata ers 2007):

- Cymraeg Iaith Gyntaf (TGAU)
- Cymraeg Ail Iaith (TGAU)
- Cymraeg Iaith Gyntaf (Lefel Mynediad)
- Cymraeg Ail Iaith (Lefel Mynediad)

Cymraeg Iaith Gyntaf (TGAU)

Nifer - 20

A*	A	B	C	D	E	F
0	0	1	6	6	5	2

Cymraeg Ail Iaith (TGAU)

Nifer - 56

A*	A	B	C	D	E	F
12	12	7	10	11	3	1

Cymraeg Iaith Gyntaf (Lefel Mynediad)

Nifer - 4

Gradd 1	Gradd 2
1	3

Cymraeg Ail Iaith (Lefel Mynediad)

Nifer - 1

Gradd 3
1

Mae cynnydd disgyblion sydd wedi mynychu'r ganolfan iaith yn galonogol iawn, a braf yw nodi bod nifer o ddisgyblion wedi croesi'r bont, ac yn dilyn rhaglen astudio Cymraeg iaith gyntaf.

Mae'r ddarpariaeth a gynigir yn effeithiol ac o ansawdd uchel iawn. Y llwyddiant mwyaf arwyddocaol yw'r ffaith bod disgyblion yn dychwelyd i'w hysgolion gyda'r gallu i gyfathrebu'n effeithiol yn eu hail-iaith, yn ymroi i'w rhaglenni addysgol ac yn integreiddio i gymuned yr ysgol yn llwyddiannus. Mae'n werth nodi bod cynnydd rhai unigolion o ddisgyblion yn rhagorol.

Cydnabyddir a gwerthfawrogir y ddarpariaeth ardderchog a gynigir gan y Canolfannau Iaith Cynradd ac Uwchradd.

Yn arolygiad diweddar Yr Awdurdod, fe nododd Estyn bod y gwaith ar hybu'r Gymraeg yn arwain y sector, a bod cyfraniad y Canolfannau Iaith yn rhan greiddiol o'r llwyddiant hwn.

ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor Iaith dderbyn y wybodaeth.